Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

# AWDL

# UNIGEDD

GAN

TALIESIN HIRAETHOG.

John Davis

RHUTHYN:
ARGRAFFWYD GAN I. JONES, (RHUDDENFAB.)

1879.

Pris Chwe'cheiniog.

28915 f. 120

# AWDL

# UNIGEDD

GAN

TALIESIN HIRAETHOG.

RHUTHYN:
ARGRAFFWYD GAN L JONES, (RHUDDENFAB.)

1879.

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor

BODLEIAN
P
15 OCT 1965
LIBRARY

# RHAGYMADRODD.

ANFONWYD yr Awdl ganlynol i Eisteddfod y Gordofigion, Nadolig 1878. Rhestrwyd hi yn mysg y goreuon yn y Feirniadaeth, a chyhoeddir hi er difyrwch i hoffwyr Barddoniaeth. Nid ydwyf yn meddwl fy mod wedi cael cam oddi ar law fy meirniaid; ond yr wyf yn cyflwyno fy Awdl i'r cyhoedd, yn hytrach na'i gadael i lwydo yn mysg fy ysgriflyfrau.

Nid oes genyf help fod UNIGEDD natur wedi cael cymaint o le ynddi; y mae hyny i'w briodoli i olygfeydd mynyddig dyddiau mebyd, ac nid ydyw y darluniadau hyn ond copïad o'r hyn sydd wedi ei argraffu mor ddwfn ar fy nghalon.

TALIESIN HIRAETHOG.

*Llaethwryd,*

*Chwefror 5ed,* 1879.

## CYNNWYSIAD.

Ymneillduad ar fin hwyr i UNIGEDD y mynydd.—Unigedd y bryniau, y creigiau, y bugail, yr aberoedd a'r ceunant.—Unigedd y waen, a chaddug y nôs.—Y lleidr yn tramwyo yn yr Unigedd.—Troi i ddilyn Unigedd yr afon ;—yr afon yn cyrhaedd y morfa ;—Unigedd glan y môr.

Ymdaith i wlad dramor er mwyn dilyn Unigedd yno.—Safleoedd hen ddinasoedd anghyfanedd.—Ynys anghyfanedd, ei chnwd, a'i bwystfilod, a'i hadar gwylltion.—Morwr yn cael ei daflu yno gan longddrylliad.—Unigedd ynys yr iâ.

UNIGEDD y Duwdod yn y dechreuad cyn creu dim.—Unigedd boreuol Adda.—Gofidiau yn troi unigedd yn flinder.—Unigedd yr alltud, y weddw a'r amddifaid.—Unigedd hen gartref a'i gadeiriau gweigion.—Unigedd y fynwent lle mae y teulu.—Hen gymdeithion unig yn myned heibio porth y fynwent, a'u hiraeth am eu cyfeillion sydd o'i mewn.—Unigedd Eneiniog y Nef, " heb le i roddi ei ben i lawr,"—Ei unigedd ar y groes wedi i'w Dad ei adael.—Unigedd yr anuwiol yn marw.—Diweddglo.

# UNIGEDD.

*"Car doeth yr encilion."*

I.

CENIR i byngciau hynod,
Bwa a'r cledd bia'r clod;
Hyawdl feib a'u hawdl fydd
I rwysg hen oresgynydd,—
Llysoedd, gwleddoedd a gloddest,
A bywiog hwyl lle bo gwest,
Neu y ddenol, fyw, ddinas,
Heb eillt a glyn, heb wellt glas.—

O'u sŵn i fynwes hen fynydd—troaf
Trwy redynog elltydd;
Delw o fôr dileferydd
Yw awyr deg hwyr y dydd.

I UNIGEDD llechweddau—y canaf
Ceinion encilfanau;
O! mae yn hoff cael mwynhau
Hynt i ŵydd eu cynteddau.

Lleinw y tawelwch llonydd— hen wâg
UNIGEDD y mynydd;
O fongc grug neu faingc creigydd
Allor dân a wna lliw'r dydd.

Gwelaf y llwyd-niwliog aelydd— cribog,
A bannau miniog o ben y mynydd.

Bryniau tawel a'u bronau at huan
Geir, laweroedd hyd y gorwel eirian;
Rhodiaf heno ar eu hyd fy hunan—
Troaf hyd oriel cartref y daran;
Agor eu glwys gysegr glân—y mae brig
Y gelltydd unig i wylltedd anian.

Y graig holltawg mewn gwisg o rug gwylltion
Yn llwydni awyr sy'n lledu'n eon,
A'i chaerawg waliau uwch y rhigolion—
Tyrau aerwriaeth—cartre' eryron;
Fry i'w gwyneb dring y geifr gwynion,
Hyf, a diofnus, uwch yr hafnau dyfnion;

Er a gawodwyd o fellt-ergydion.
Yma i'w hystlys gan y tymhestlon
Erys ei gruddiau oerion,—lun a maint,
Fyth yn eu henaint 'r un fath yn union.

Mae helaeth wyllt-dir moelydd—neu nant
Yn nef i'r bugeilydd;
Hyd y bangc siarad y bydd
A fo 'i hun, neu'r hen fynydd.

A yn mlaen o dan ymloni
I fynu geillt efo 'i hen gi;
O dano mae'r llyn denol,
A'i ŵyn i'w gwel'd yn ei gol,
A gweunydd grugog wenant
Dan flodau yn ochrau 'r nant;
O! wisg hardd ar desog hin—
Gown haf ei hen gynhefin!
Perffaith lawrleni porphawr
Leda ym-mhyrth teml y Duw mawr.
Hwn a wêl ei gynhaliwr
A llaw Un doeth mewn llyn dw'r!

Y neint hen am wlad y tònau—lefant
Wrth lifio'r llechweddau,
Cwys o'u hol o'u ceseiliau
Yma o hyd sy'n mwyhau.

Eu codwm i'r ceunant coediog,—mae'n hardd
Yn min hwyr, a'r trystiog
Reiadr, lle naid yr eog—o'r cenlli'
Trwy wych yni i'w ddanedd trochionog.

Eisteddaf ar risiau diddan—y graig,
Tra rhydd gwrid yr huan
O'i gaurau emwisg eirian
I wydr bost y rheiadr bàn.

Yn ei dwrw'r coed iraidd—a hongiant
Eu cangau llliprynaidd,
Yn yr awelon mor wylaidd—ddystaw,
Fel pe yn gwrandaw ei alaw reolaidd.

Dyma erch lanerch lonydd—yn y nos
O dan haen y coedydd,—
Mangre wyllt mewn gorelltydd—heb ddim sü
Na llef yn untu ond llif y nentydd.

Ni sua'r gwynfanus awel,—ni chân
Edn chwim ei ddwsmel,
A nâd oen dafad nid êl
I glyw nos drwy'r glyn isel.

O helynt einioes aml iawn y tynaf
Yma i'r ceunant; am oriau canaf
Gerddi gwallgofus,—dorus hyd araf,

Hir, droellog, aber, drwy wyll y gwibiaf,
Cyrion pellenig garaf,—rhyw le mud
I mi yn alltud a'i drem yn wylltaf.

Symudaf ac af i gwr
Y deg waen, lle digynwr';
Y ddafad hoff, ddôf, a da
A'i hardd oen orwedd yna
Ac aros yn y gweirwellt
Wna adar gwiw dan do'r gwellt;
Hwynthwy a wnant eu tai nos
A'u haddef mewn twmp diddos;
I mi a hwynt y mae hedd
Yno'n eigion Unigedd.

Berw gwyllt aber a gân
Yn hoenus wrthi 'i hunan
Yn y niwl ac ni wna neb
Wrando ar ei chywreindeb,
Ond preiddiau 'r mynyddau noeth,
Neu ednod y graig droednoeth;
Hardd yw haenau urdduniant
Y môr niwl am wàr y nant.

Yn llwydrew y nös y lleidr a wna—droi
Ar draws i'w ymchwilfa;
Yn ysgafn-droed ymwasga—at annedd,
Y cêl Unigedd a'i calonoga.

Gwylia a phryderus galon—yn hir
Dan hudd yr encilion,
Draig yw yr un drwg, ëon,
A du frad yn brydio 'i fron.

Byw yw gwaith drwy bob gwythen—dwys, effraw,
Dim ond siffrwd deilen,
Neu wangc pryf yn cnoi caingc pren
Wna dwrw fel cwymp derwen!

Drwy'r tarth y daw cyfarth ci,
Adsain nâd sy' yn nodi
Y dynesiad aneisior
I gyrhaedd hyd agor y ddor.
Minau mewn cyffro ffôaf,
I rywle mhell ar lam af;
Y mae fy nhynfa mwyach
I le yn nes i lwyn iach.

Dilynaf drwy hwn hyd lanau—'r afon
Ryfedd ei throadau,
Ar ei hyd nes mae 'i ffrydiau
Yn meirw o fewn y morfäau.

I gwrdd y dlysaf afon
Hyd dywod aur rhed y don.

Ail yw yr afon lawen,
A'i bron hyf, i wyryf wèn
Yn cyrhaedd dan wên cariad
O daith hir i dŷ ei thad;
Yn ddystaw fe hardd estyn
Y llanw am ei gwddw gwyn;
Diddig y cydymdoddant,
Yna yn ol yn un ânt.

Hwyliaf i'r morfa helaeth,
Yno i roi tro ar y traeth,
Tra mae hedd UNIGEDD nös
Yn ei ferw 'n fy aros.
Y nös gaf drwy'r ffurfafen
Yn golau canwyllau 'r nen,
A'u tywyniad yn tanio
Lliwiad i frig y ddyfrllyd fro—
Dawnsio ar ei donau siriol
Wna'u heilun gwyllt yn mlaen ac ol.

O'i làn wyllt y wylan wèn
Ehed yn llesg ei haden,
A disgyn ar led osgo
Yn bell ar ei wyneb o;
Nofia'n syn hyd ei wyneb
Yn ŵyl iawn a'i bron yn wleb,
Gwaedda—"I mi UNIGEDD môr
A gwylio berw gwleb oror."

Y môr unig, O! y mae rhyw wenau
Ar brysurdeb gwylltineb y tònau ;
Yn llaw Duwdod cynullwyd heidiau
O gerynt gleiniawg gurant y glanau ;
Yn aflonydd filiynau— y teithiant
O orwel ariant hyd ei aur loriau.

Noswylia tònau, yswil y taenant
Eu hewyn ysgafn, y làn a wisgant
A gemau o dywod ac ymadawant
I'w gwely isel, cwrel ac ariant
Yw lliw ymylau y lle ymwelant
Gan dlysedd cregyn ; ac wed'yn codant
Hwy, y creig gwynion—caerawg ogoniant ;
Oesau hyfion y tawel wrthsafant
Guriad yr heli, ond dagrau dreuliant
Eu gruddiau yn rhigolau gànt,—uthredd
A hyf Unigedd y fan fynegant.

Y nef fyth a'i gloywon fwäau—a blyg
At y blin ddyfnderau,
A sû dawnus ei dònau—sydd fel bloedd
Engyl y moroedd yn nghlyw eu muriau.

Unig iawn yw'r greigiog allt,
Hen wal y môr dan ol mellt ;
I'w brig hen, y berw gwyllt
Heibio ehed o bob hollt.

Yma O! fôr, dim wyf fi
Yn dy ŵydd, 'r wy'i ymdoddi;
Dirym wyf i dremio i wedd
Y gwyn aig a'i UNIGEDD.

## II.

CYMERAF daith hyd faith fôr
I wel'd trem ar wlad dramor,
Er dilyn yr hudoledd—y mwynhad
Sydd mewn hoff UNIGEDD;
Llwyd awyr ymneillduedd—anadlaf,
Yma archwiliaf am arucheledd.

Glaniaf ar heulog lenydd
I rodio dan wrid y dydd;
Yr awel frwd gyrlia frig
Llanw y draethell unig.

Yr haul côch sy'n ymdrochi
Yn llosg yn maddon y lli'
Wrth fachlud, rhydd dud ar dân
Yn ei bur wyneb eirian

Egyr dôr y gwrid araf
Wna wybren hwyr fel bron hâf;
Ei gwyneb llyfn digynwr'
A gwrdda deg rudd y dw'r;
Lliw nudd aur gorllewin ddyd
Hedd a mawredd i'r moryd.

Lliw'r dydd dros ganllawiau'r dòn—a estyn
Rhyw ddystaw amneidion,
Rhydd wregys fel enfys lon
O aur nef am ddw'r Neifion.

Wynebaf o dan obaith
O wel'd i fewn i'r wlad faith.

Yno dynesaf at y dinasoedd
A gauwyd ogylch gan wyllt goedwigoedd,
Haid anwarus bwystfilod yn yroedd
Udant, waeddant lle bu'r cynteddoedd;
Yn fyw o'u hogofäoedd—y neidiant,
A dolefant hyd làn y ffrydlifoedd.

Llwyr Unigedd sydd heddyw
Ar y fan y bu'r dref fyw.

Y palas gorwymp lesg orwedd—yn ddarnau
Heb addurnol fawredd;
Safle i byrth sy' fel y bedd
Yn fynwent anghyfanedd!

Ei neuaddau weinyddynt
I hoenus gerdd a dawns gynt,
Ddiboblwyd—drowyd yn dref
I dylwyth eirth, a dolef
Adar nôs—druenusion
Wylant o hyd ar lawnt hon.

Yn lle y tànau y gwylltineb—draw
A drydd bob sirioldeb,
I'n gwydd yn awr ni ddaw gwedd neb
Ow! na hanes am un wyneb!

O hon od awn hyd i ynys—yn mhell
Yn y môr anhysbys,
Gwedd oer UNIGEDD erys
Heb drigfan, na llan, na llys.

Eangdiroedd o bawrleoedd
A'u coedwigoedd cauad ogylch—
Gwywder henoed lwyda'r brysgoed
Trwy ei fangoed hyd derfyngylch.

Yn y llwyni dillynaf
UNIGEDD a gwylltedd gaf,
Heb ol gwareiddiad, heb un
Acw o unlle 'n rhoi cynllun
At arddu trwy'r cnwd hirddail,
Neu wneyd i hwn newid dail.

Gwerdd yw ei emwisg harddaf,
A genir rhôs gan yr hâf,
A'u haroglau a dreiglir,
A'u gwenau teg yn y tir,
Heb hanes tlysaf Wenafwy
I'w dwylaw o hyd a'u heil hwy.

Mwyngerdd a leinw'r mangoed,
A miwsig hâf yn mysg coed,
O dwyn i dwyn heb fôd dynol
Neu arwydd o'i waith ar y ddol.

Eco y rheiadr acw o'r awyr
Eheda heibio, a dwnad ebyr,
Onid yw heb wrandawyr—yn darstain
Y byd am ugain oes heb edmygwyr ?

Newynog haid yn y gwellt
Yma'n aros mewn hirwellt
A geir er's oesau, a'u gwâl
Dreiniog yn mhellder anial,
Heidiau dewr y pryfaid dig
Lanwant ei herdyl unig.

Byw yn hoen eu gwylltineb anianol
Yn eu gwâl hen mae rhywiau gelynol,
O'i hudol forfëydd daw cadlef herfeiddiol,
A'u llwybro'n hoenus mae'r llew brenhinol.

Ac o wasgawdwydd cysgodol—neidiant
O fant cornant ar fintai y carnol.

Troi allan trwy'r llwybrau troellawg—y nôs
A wna'r dorf newynawg,
Ac udant drwy'r allt goediawg—neidia tân
O wyllt anian o'u llygaid melltenawg!

Gorwedd mewn UNIGEDD wnant,
A dynion ni adwaenant;
Bodau'r gwylltineb ydynt
Yn ffroenio gwaed, ffyrnig ynt!

Ymweled a'i ymylon—wna'r adar
Crwydredig yn rhyddion,
Yn dyrau drwy'r coed hirion—ben borau
Chwibana degau uwch ben eu digon.

Un tàl sydd yn rhodio'r tir
Eon fryd—teyrn y frodir,—
Cerdda'r twmpathog hirddail,
Yn ara' deg drwy y dail;
Un llai at hwn â lliw teg—
Wisg hudol, wna frysg hedeg;
Y lle na bu llaw un bôd
Yn hau mês, neu ymoso
I dori coed, ar y cyll
Ysgwyd ei berlog esgyll,

Ac ar unig, hir, anial
Dyna'i dŷ, y goeden dàl ;
Genir ei rai bach, gweiniaid,
A Duw a rydd fwyd i'w rhaid—
Etifedd yr UNIGEDD wna
Fwynhau'i nef yn Iehofa.

I'r glanau dirgel, unig,—hyd y llif
Daw y llong ddrylliedig ;
Yn y llanerch bellenig—un o'i llwyth
O'i herchyll adwyth ddaw'n archolledig :
Dring hwnw drwy anghenion
I allt o dir o'r wyllt dòn.

Geilw hwn y gwylanod—a milyn
Ymwela a'i drigfod
Yn gyfeillgar,—anmharod—er erfyn
Y daw undyn i dori'r mudandod.

UNIGEDD awyr y nôs gyhoedda
A'i mirain wefus mai'r un Iehofa
Drwy ynysoedd y byd a deyrnasa ;
Y lleuad unig ar y lli' dywyna
Yn ei gemwisg, ac yma—a thrist wedd
Am ei oferedd ei hun myfyria.

Ar y wendon ymwranda—ei hunan,
A'r gwenyg siarada ;

Mewn UNIGEDD gorwedda—yn sŵ'r dw'r,
Neu'n ymerawdwr y trumau rhodia.

Byw mae'n alltud symudol,
Dilyn eirth hyd lwyn, neu ol
Helwriaeth, neu ŵyl aros
Mewn perthi yn nefni nôs.

---

Lle mae awel llym aua'
A gwylltedd oer gelltydd iâ,
Esquimaux i'w mysg ymwêl
Er dirfawr fferdod oerfel.

Gyr y gŵr i graig eira—ei fwyall,
A'i fwth gwyn a dora ;
Try yn hwyliog tra'n hela
I ganu hyd glogwyni iâ.

Yr UNIGEDD gogleddol,—a nôs hir
Ar ynys iâ oesol
Wna'i fodau ymfudol—ymdori
I ymhoeni mewn hinsawdd ddymunol.

Ar glwyd oer o galed iâ—un dewraidd
Aderyn* arhosa
Yn llwm wywiant llym aua'—gogleddol
A'i anfesurol wŷn faes o eira.

Drwy'r gauaf llwm, trwm, y trig
Yn nanedd clogwyn unig;
Un gwyneb ni esgyna
Eithr hwn ar y llathrau ià,
I wel'd edyn y niwl dudew
Yn crogi ar hyd creigiau rhew,
Unig o deulu anian
Yw hwn wna fyw yn y fan;
Cwsg un òd yn dy frodir,
A'th ynys iâ, a'th nös hir,
I wynt moroedd tymherach
Troaf fi, neu gartref iach.

* "Ceir fod un math o aderyn yn gauafu ar fetsydd a mynyddoedd o iâ ac eira, heb gynyg ymfudo i'r dé pan ddelo llymder dirfawr y gauaf pegynol."—*Hanes Syr John Franklin.*

III.

Tad anian fu'n drigianol—yn eigion
  Unigedd tragwyddol,
 Ac nid adwaenid ol—olwyn planed,
 Ai drwy ei "Fydded" i'w rhawd rhyfeddol.

Ei olwg droes at orielau—gweigion
Hwnt i'r "Geugant" golau;
Tynai ei fys tan fywhau—y terfyn,
Neidiai i'w ddilyn fydoedd a heuliau!

Astud gynulleidfa ddistaw—y sêr
Ieuaingc sy'n ymwridaw;
Gwedd oer yr UNIGEDD ddaw
Yn wydr addien oll drwyddaw.

Adwaenid crëad unwaith
Heb "siw" 'n ei goed, heb sŵn gwaith,
Heb undyn, gelyn neu gâr,
Yn aer i Dduw ar y ddaear,
Ond Adda 'i hun, heb un bôd
Na dwndwr drwy'r mudandod,
Ond sŵn Anian ddianaf
Weddiai'n un ar Dduw Naf;
Hon oll oedd yn un allawr
Yn mhyrth yr UNIGEDD mawr!

Yf meillion byrion y bangc,—lliw'r cwrel
Eu bywyd o awel y byd ieuangc,
Heb undyn yn gweled bendith
Neu Dduw o fewn glân ddafnau gwlith.

Adda unig yn ei newydd anedd
Yn y llwyr osteg ar y llawr eistedd,

Neu crwydra finion yr afon ryfedd
Süai dawelwch drwy nôs hudoledd ;
Yno ceid llwyni y coed dillynwedd,
Cywrain o'i ogylch, yn crëu UNIGEDD ;
Eang fyd dan ei sang fedd—i'w dramwy
Ei hun yn feudwy yn ei wynfydedd.

Anifyrwch yn forau—andwyodd
Dawel fyfyrdodau ;
Adfydus fyd-ofidiau
Wna i leufer oes lwfrhau.

Pan ddaw blinder
Troion amser
Trwy ein hymson,
Swyn gwynfydig
Bod yn unig
Baid yn union.

Yr alltud o dud ei dadau—unig,
Galon dra ysig, eilw i'n drysau
Am elusen, mae loesau—UNIGEDD;
Enaid anhunedd, yn dwyn ei wenau.

Druan yw ! mae gyda'r nôs
Yn ddihaddef, heb ddiddos,
Heb lun bwth, heb le'n y byd
Yma i huno am enyd ;

Troi wna i'w rawd tra'n hwyrhau
I lwybr anial y bryniau.

Hyf holltir gan y fellten,—a'i chledd coch
Aelydd certh yr wybren,
Ac ofnus ar y gefnen
Yw'r un hoff gan ferw'r nen.

Tywyllwch a gwlaw'n bistilloedd—o'i gylch
Sy'n amgau y cymoedd ;
Cynwrf y nôs ddrychinoedd
Darana'i ing ; "Druan oedd !"

Ei dud neu fedd ei dad neu 'i fam
A'n fyw dònau drwy 'i gôf dinam :
Eu henwau hwy rydd wenau hedd,
A swyn i'w wgus UNIGEDD.

Ni wna twrf na hoen tyrfa—heolydd
Ro'i hwyl na gorphwysfa ;
Unig, unig yw yna,—heb ddim byd
I wella'i adfyd mewn cynulleidfa !

Gweddw ieuangc ga'dd wywo—ei gwedd
Fel lliw gwyn yr amdo—
Ei hunan y cawn hono—mewn tristwch,
Yn nhawelwch canolnos yn wylo.

Ust oer y mawr ddistawrwydd
Yno a geir yn ei gŵydd,

Heb ei gŵr mae'n wleb ei gwedd
Yn ei hunig anhunedd;
Un o geraint trugaredd,—drwy'r hirnos,
Ni ddaw yn agos i'w phrudd UNIGEDD.

Llu o amddifaid yn llym oddefant
Ingoedd, laweroedd, a phrudd alarant;
Yn eu mebyd, Ow! druain ymwibiant,
A miniog eisiau, rai mwyn, a gawsant;
Yn eu HUNIGEDD y nôs gorweddant
Yn eu nwyf tyner—gan ofid hunant;
Am dad i'w noddi, am dud ni wyddant
I loni mynwes a heulwen mwyniant,
A mynych wên mam ni chânt,—na'i hoffder,
Na llaw dyner gan gyfaill adwaenant.

Yn aelwyd fy anwylion—y mae sedd
Oer UNIGEDD, a chadeiriau'n weigion.

Anniddan tremio iddynt—cadeiriau'n
Codi hiraeth ydynt;
Rhyw olwg ar eu helynt—rydd adgof
I boeni ynof, bob un o honynt!

Anwylion yr hen aelwyd—dirionaf,
Ynoch a welaf er maint a chwalwyd!

Eiddo i nhad oedd un hen
Barchaf, bu nhaid yn berchen

Hon unwaith, ei hen hanes
Lŷn yr un a'r teulu'n rhês.

Yn ei fŵth ni chaf weithian—un hanes
Am yr henwr druan
Eisteddai'r hwyrnos diddan
Ynot ti o flaen y tân.

Fy mam anwyl a fu'n gwylio—yn hir
O un arall yno,
Ninau'n fân yn llawn nwyf, O!—anwyliaid,—
Gwaedu yr enaid mae'r gadair hono!

O! 'r hiraeth a'm cyffry'r awrhon—od af
I'w ystefyll gweigion;
Yma erys o'r meirwon—ddarluniau
Hyd ei waliau yn hynod o welwon.

Gwâg UNIGEDD sydd heddyw
Yn y fan, heb neb yn fyw
O'r hen bobl driniai y byd,
Na'u meibion—cwmni mebyd;
Minau a af at eu mynawr
I ŵydd eu mud UNIGEDD mawr
I weled diwedd a heddwch
Eu tai yn y Llan tàn y llwch.

I'r fynwent, sobraf anedd,—af yn awr
I fwynhau neillduedd;

Yma y trig mewn UNIGEDD
Llawer oes yn y llwyr hedd.

Hen annedd wyt i benwyni,—ac O!
Mae'r llangc ieuangc gwisgi,
A'r eneth hawddgar, heini,
Heb rudd deg yn dy bridd di.

Ynot y lawn fynwent lonydd,—y rhoed
Hir rês o'm carenydd;
Hwynthwy lunient lawenydd
I le 'r dawns am lawer dydd.

O'u berw tost, a'u bri, tŷ
Yn ebrwydd gawsant obry;
Ust a roed ar drwst y rhai'n,
Heno mae pawb eu hunain!
Deiliaid UNIGEDD y dulawr,
A didwrf fyd yw y dorf fawr!

Gwelaf yr hen drigolion—a lliw bedd
Lle bu y rhôs cochion,
Yn methu tramwy weithion
Heibio ei phyrth heb y ffon.

Ol UNIGEDD sydd heddyw
Grëodd oes ar eu grudd wyw;
Unig ynt ar riniog oes,
Yn flin gan ofal einioes;

Fe allai fod cyfeillion
Eu taith, yn y fynwent hon;
Hwythau'n unig a drigant
Ar ol, yn eu galar ânt
Heibio, rhwng ofn a gobaith
At y bedd, y "tŷ heb waith;"
Hwy a garent gael gorwedd
O dònau y byd yn y bedd.

ENEINIOG Nef fu unwaith
Heb un lle i roi'i ben llaith;
Ai y nôs drwy'r lydan wîg
I'r hen fynydd-dir unig,
I ŵydd y sêr, i gudd siarad
Ei ofid dwys hefo'i Dad.

O! wasgedig UNIGEDD—ein Hiesu,
"Tywysog tangnefedd:"
Caddug oer y "cuddio" gwedd—ydyw'r bys
A ddyfna erys ar ddu f'anwiredd!

Dengys mai'r caled ingoedd—i Geidwad
Fu y "gadael" cyhoedd;
Ael ei Dad dan lid oedd,—yntau'i hunan
O dan y daran yn y dyfnderoedd!

Arweinia'r "ynfyd" fywyd o feiau,
Hwn ni adwaen Waredwr eneidiau;

[library stamp]

Anturia'i hunan tua'r clorianau,
Neu dwrw ingol rheiadrau angau ;
Yn ei antur daw yntau,—y truan
Ato ei hunan yn ngŵydd y tònau.

Wrth yr afon mae'r gwirion yn gorwedd,
A lluniau anwn yn llenwi'i anedd;
O fewn ei enaid mae'r prif anhunedd ;
Tröa i guro at ddrws Trugaredd ;
Ond dysg cyffröad ei wedd—mai llid Iôr
A wêl yn agor drwy niwl UNIGEDD.

Unioner fy anianawd,
Mynaf Ri i mi yn frawd
I'm noddi, y mae'n addas
Ofyn yr oll yn nhrefn ei ràs.

Dad rhyfedd ! dod arafwch—i enaid
Wrth ffinio'th ddirgelwch ;
Addolaf er f' eiddilwch
Yn dy lŷs, fi yw dy lwch.

Dy lwchyn dan y gwaed lecha—ei ben,
Unig borth dihangfa :
Yn Dad im mae y Duw da,
A'i amod droswyf yma.

LLIFON.

# Y FEIRNIADAETH.

GAN ELIS WYN O WYRFAI.

"DERBYNIWYD unarbymtheg o Awdlau ar y testun. A'u cymeryd at eu gilydd, y maent yn gyfansoddiadau o radd uchel iawn mewn teilyngdod. * *

LLIFON.—Y mae Llifon yn rhagori bron ar ei holl gydymgeiswyr mewn parthlunıaeth o Unigedd natur. Y mae ei ddesgrifiadau o Unigedd y mynydd, glan y môr, yr anialwch, a'r iâ gogleddol, yn dra awenyddol. Cynwysa yr Awdl lawer iawn o ddysni, ac y mae yn wir ddifyrus i'w darllen. Ychydig a ymwna â'r rhan foesol ac ysbrydol o'r testun."